

DOLEN Y TAB 82

19–20 Tachwedd 2021

11 Fore Sul 21 Tachwedd

Yng ngofal Wendy Reynolds, Gwion Evans a John Ll. Thomas, gydag Eleri'n cyfeilio.

Cofiwch gofrestru erbyn 6 o'r gloch nos Wener, os am fynychu'r cwrdd!

YR OEDFAON NESAF

TACHWEDD

- 28 Oedfa gyda'r Parchg. Gethin Rhys ac Edwyn Evans, yn cael ei dilyn gan y Cwrdd Blynyddol.

RHAGFYR

- 5 Yng ngofal y Parchg. Eirian Rees, Huw Roberts a Sylvia Davies.
- 12 Gwasanaeth Nadolig plant yr Ysgol Sul gyda pharti iddynt i ddilyn.
- 19 Oedfa gyda'r Twmiaid ac aelodau o'r gynulleidfa – cerddi, ambell gân ac atgofion Nadoligaidd.

Ni chynhelir oedfa fore Sul 26 Rhagfyr.

Hefyd ddydd Sul 21 Tachwedd

12:00 Oedfa Radio Cymru

Gwasanaeth dan ofal y Parchg. Casi Jones, Bangor.

12:30 Radio Cymru – Bwrw Golwg

John Roberts a'i westeion yn trafod materion moesol a chrefyddol.

19.30 S4C Dechrau Canu Dechrau Canmol

Yn y rhaglen nodir 20 mlynedd ers cyhoeddi'r argraffiad cyntaf o *Caneuon Ffydd*.

E-fwletin Cristnogaeth21

Bob bore Sul www.cristnogaeth21.cymru

COFIWCH AM Y

CYFARFOD CYFFREDINOL BLYNYDDOL

Bore Sul, 28 Tachwedd 2021

Dathlu Bedydd Miriam Elain



Roedd yr oedfa fore Sul 14 Tachwedd yn un arbennig iawn i Geraint a Manon Huws a'r efeilliaid, Ffion a Nia, pan fedyddiwyd Miriam Elain yng nghapel y Tabernacl. Ond roedd hefyd yn achlysur nodedig i'r eglwys gan mai dyma'r bedydd cyntaf

y llwyddwyd i'w gynnal yn y capel am dros ddwy flynedd oherwydd cyfyngiadau Covid-19. Un fydd yn trysori'r diwrnod yn fawr iawn fydd mam-gu Miriam, Rhiannon Humphreys, gan mai hwn oedd y bedydd cyntaf iddi ei gysegru ers iddi dderbyn y cyfrifoldeb am fedyddiadau'r Tabernacl. Afraid dweud iddi gyflawni'r cyfan gydag urddas ac yn gwbl diffwdan. Braff hefyd oedd medru croesawu pedair cenhedlaeth o deulu Miriam i'r Tabernacl i fod yn dystion i'r dathliad.

Diolch!

Dyma pa mor bwysig ydy'n rhoddion ni:

"...they really have made such a huge difference...they cannot believe how generous people have been..."

"We were able to distribute all of the Easter gifts to our families most in need."
- Gwasanaethau Cymdeithasol

"We are very grateful for your donation, particularly when it is difficult to raise funds."
Ysgol Tŷ Coch

"Mae rhoddion cefnogwyr fel chi at Nychdod Cyhyrol yn galluogi'r gwaith ymchwil, sydd mor bwysig, i barhau." - Karen Evans

"Thank you all so much for your kind donation"
- Gofalwyr Ifanc Rh.C.T.

"Thank you so much for your support... when we are needed more than ever."

"That's an amazing donation again... I cannot thank you all enough..."

DIOLCH YN FAWR I CHI I GYD AM WNEUD HYN YN BOSIB
- Y Gweithgor Cyfiawnder Cymdeithasol

Twmiaid yn
cyflwyno

CYRI A CHWIS

Indiaah, Pontyclun

Nos Iau 25ain o Dachwedd
7 o'r gloch

£14.00 y pen

I archebu lle cysylltwch
gyda Eleri Mai
elerimaithomas@hotmail.com
07971397264



Pigion o'r Wasg

*'Y sawl sydd â chlustiau ganddo i wrando,
gwrandawed' Marc 4:9.*

Yn rhifyn yr wythnos hon o *Cennad* [Rhif 38] (www.cennad.cymru) mae Elfyn Pritchard yn cymhwyso dyfyniad gan George Orwell, 'Os yw rhyddid yn golygu unrhyw beth, mae'n golygu'r hawl i ddweud wrth bobl yr hyn nad ydyn nhw eisiau ei glywed' i bregethau a glywsai o bulpudau Cymru dros y cenedlaethau. Mae'n cydnabod iddo wrando ar lawer iawn o ddatganiadau ynddynt nad oedd am eu clywed, e.e. bod y pechod gwreiddiol yn rhan ohono, ac nad oedd unrhyw weithredoedd da ganddo yn cyfrif dim ar ddydd y farn. Serch hynny, mae'n derbyn bod gan bob pregethwr yr hawl i draethu o'r pulpud yn ôl ei ddehongliad personol o'r ysgrythurau; wedi'r cyfan, onid yw hyn yn adlewyrchiad teg o'r amrywiaeth eang o syniadau a dehongliadau ar wirioneddau'r efengyl a goleddir gan aelodau ein heglwysi?

Ond ochr arall y geiniog, o safbwynt rhyddid y pulpud, yw hawl y gwrandaŵr i dderbyn neu wrthod y neges a draethir. Mae'n wir bod y cynulleidfaoedd yng nghapeli Cymru wedi crebachu ers can mlynedd a mwy erbyn hyn, ond maent yn parhau i gynrychioli amrywiaeth helaeth o gredoau – rhai'n credu'n ddiffuant mai gweithredoedd sydd bwysicaf, tra bod eraill o'r farn mai edifeirwch yw'r 'unig allwedd i achubiaeth'.

Aiff yn ei flaen i drafod un agwedd arall ar y rhyddid hwn, sef y rhyddid sydd gan bob un i wrthod croesi rhiniog capel i 'wrando ar yr hyn nad ydyn nhw am ei glywed'. Byddwn yn clywed adroddiadau'n feunyddiol bron bod mwyafrif llethol y boblogaeth yng Nghymru bellach yn cadw draw o'r oedfaon. Mae'n cloi ei erthygl trwy holi'r cwestiwn:

'Pa les, wedi'r cyfan, yw'r rhyddid i ddweud pethau nad yw pobl eisiau eu clywed os nad yw'r bobol hynny yn barod i wrando o leia, os nad i gytuno. Onid pulpudau yn annerch seddau gwag yw tristwch mwyafrif yr oedfaon yng Nghymru erbyn hyn?'



CASGLIADAU'R NADOLIG

Daeth hi'n amser meddwl am gasgliadau'r Nadolig unwaith eto, ac ymgyrch y Tabernacl i ledaenu ychydig o ysbryd yr Wyl ymhlith pobl sydd mewn amgylchiadau anodd yn yr ardal.

POBL IFANC

Fe fyddwn ni, yn ôl ein harfer, yn anelu at gyflwyno talebau gwerth £20 i bump ar hugain o bobl ifanc sy'n gadael gofal, drwy'r Gwasanaethau Cymdeithasol.

ELUSEN POBL

Mae Pobl yn chwilio am help i gynnal dathliadau Nadolig yn eu hosteli, a'n gobaith ni ydy bod yn rhan o'r fenter drwy gyflwyno talebau gwerth £50 i bedair hostel, gan nad oes cyllid ar gael i'r elusen fedru gwneud hyn.



Bydd modd cyfrannu drwy sic neu drosglwyddiad banc drwy Arwyn, ein trysorydd, neu roddion ariannol drwy law John Llew neu Ann Dwynwen.

CYMORTH I FERCHED CYMRU

Bydd ein casgliad danteithion Nadolig a nwyddau hylendid yn parhau eleni, yn ystod mis Tachwedd, a byddwn yn didoli a danfon popeth mewn da bryd ar gyfer tymor y Nadolig.



Bydd y capel ar agor rhwng 10 a 12 bob bore Iau drwy fis Tachwedd i dderbyn eich rhoddion.



DIOLCH YN FAWR I CHI
AM EICH CEFNOGAETH BARHAUS
- Y Gweithgor Cyfiawnder Cymdeithasol



BANC BWYD SALEM TONTEG

Daeth cais drwy law Carys i gefnogi ymgyrch Nadolig y Banc Bwyd uchod drwy gasglu pob math o ddanteithion Nadolig yn ystod mis Tachwedd i'w danfon i Salem Tonteg o 20 Tachwedd ymlaen. Os byddai'n well gennych chi roi cyfraniadau Nadoligaidd yn y blwch arferol yn y capel, bydd Carys yn trefnu i'w cludo i'r Banc Bwyd. Mae rhestr o'r danteithion i'w gweld mewn cyhoeddiad gan y Banc Bwyd yng nghyntedd y capel.

Cysylltwch â carys.davies75@gmail.com os am ragor o wybodaeth.

Cylchlythyr wythnosol Capel y Tabernacl Cyf. yw **Dolen y Tab** i ledaenu newyddion trwy gyfrwng e-bost, Facebook a gwefan y capel www.tabernacl.org.

Gofynnir i chi anfon unrhyw newyddion erbyn nos Iau at: 07710 237327 / 01443 225205 / gehpengwern@yahoo.co.uk